***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 2544 (Cy.206)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Diwygiadau Amrywiol ynghylch Diogelu Plant) (Cymru) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *17 Medi 2009* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *21 Medi 2009* |
| *Yn dod i rym - -* | *12 Hydref 2009* |

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 342(2), (4) a (5) ac adran 569 o Ddeddf Addysg 1996(**1**), a chan adran 21(5) a (6), adran 138(7) ac (8), adran 72 ac adran 138(7) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**2**), a thrwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 12(3), adran 19(3), adran 34(5), adran 35(4) a (5), adran 36(4) a (5), adran 136(c), adran 157(1), adran 168(1) a (2), adran 210(7) ac adran 214(1) a (2) o Ddeddf Addysg 2002(**3**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

(**1**) 1996 p.56. Amnewidiwyd adran 342 gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31), adran 140(1), Atodlen 30, paragraff 82.

(**2**) 1998 p.31. Diwygiwyd adran 72 gan Ddeddf Addysg 2002 (p.32) ond nid yw'r diwygiad yn berthnasol. Diwygiwyd adran 138 gan Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (p.40), adran 175, Atodlen 17, paragraff 3(1) a (4); gwnaed diwygiadau eraill i adran 138 gan y Ddeddf honno, ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol. Gwnaed diwygiadau hefyd i adran 138 gan Ddeddf Addysg 2002 (p.32) a chan Ddeddf Addysg 2005 (p.18) ond nid yw'r diwygiadau yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) 2002 p.32. Diwygiwyd adran 157 gan adran 47(1) a (2) o Ddeddf Gofal Plant 2006 (p.21) a Deddf Addysg a Sgiliau 2008 (p.25), adran 169, Atodlen 1, Rhan 1, paragraffau 13 ac 16 ac Atodlen 2. Diwygir adran 210 gan adran 21(1), (3)(a) ac (c)(i) a (ii) o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (mccc 2). Gwneir diwygiadau pellach i adran 210, gan y Mesur hwnnw a chan Ddeddf Gofal Plant 2006 (p.21) ond nid oes yr un o'r diwygiadau hynny yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).